Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

# Cynllun Busnes

## 2025 i 2026

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser gen i gyflwyno Cynllun Busnes Comisiwn y Gyfraith ar gyfer 2025 i 2026. Mae gan Gomisiwn y Gyfraith bwrpas clir, ac mae'r cynllun hwn yn nodi ein prif uchelgeisiau dros y flwyddyn nesaf, gan gynnwys ein cyfleoedd a'n heriau.

Bydd y pedair blaenoriaeth rydym wedi'u nodi yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni gwaith sy'n arbennig o bwysig i'n sefydliad, a bydd yn ein helpu i ganolbwyntio ar ffyrdd y gallwn ddatblygu fel sefydliad dros y 12 mis nesaf. Sef:

1. Gosod y sylfeini ar gyfer rhaglen waith newydd
2. Datblygu ffyrdd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd presennol a chynulleidfaoedd newydd
3. Gwella ein henw da fel asiantaeth o'r radd flaenaf ym maes diwygio'r gyfraith
4. Gwella ein ffyrdd ni o weithio

Edrychaf ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd y flwyddyn nesaf.



**Syr Peter Fraser**
**Cadeirydd**

# Rhagair y Prif Weithredwr

Rydym yn falch o gyhoeddi Cynllun Busnes Comisiwn y Gyfraith ar gyfer 2025 i 2026, gan nodi pedair blaenoriaeth y sefydliad yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Daw hyn ar adeg brysur a chynhyrchiol iawn i Gomisiwn y Gyfraith, gyda 17 o brosiectau ar waith ar hyn o bryd ar gyfer saith adran wahanol yn y llywodraeth, cyrff hyd braich a Llywodraeth Cymru. Bydd y pedair blaenoriaeth hyn, gydag amcanion cysylltiedig a mynegiant o sut byddwn yn eu cyflawni, yn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn benodol ac yn canolbwyntio fel sefydliad ar gyflawni ein dyletswydd statudol mewn ffyrdd sy'n arloesol, yn canolbwyntio ar y dinesydd ac o'r radd flaenaf, gan ddarparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn cael ei gydnabod fel sefydliad sy'n cyflawni gwaith o ansawdd uchel, yn annibynnol ac ar feysydd cymhleth. Fel y nodwyd gan ymchwil economaidd annibynnol, mae ein gwaith yn creu manteision economaidd sylweddol (er enghraifft, enillion effeithlonrwydd) ac mae'n cynnig amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol eraill, gan gynnwys hyrwyddo cyfiawnder, rheol y gyfraith a thwf sy'n cael ei yrru gan dechnoleg.

Dim ond drwy recriwtio a chadw gweision cyhoeddus talentog, ar ffurf ein Comisiynwyr Cyfraith a'n staff, y gallwn barhau i ddarparu ymgynghoriadau ac adroddiadau arbenigol a rhagorol. Wrth i ni ddathlu 60 mlynedd y sefydliad, un darn sylweddol o waith eleni fydd adolygu ein model gweithredu er mwyn sicrhau bod gennym y capasiti, y gallu a'r diwylliant cywir i gyflawni ein dyletswydd statudol wrth symud ymlaen.

Ynghyd â'r Cadeirydd, edrychwn ymlaen at adrodd yn erbyn y Cynllun Busnes hwn y flwyddyn nesaf.



**Joanna Otterburn a Roshnee Patel**
**Prif Weithredwyr ar y Cyd**

# Cyflwyniad

- Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol sy'n gwneud argymhellion i'r llywodraeth ynglŷn â moderneiddio'r gyfraith.
- Ers 60 mlynedd, mae wedi sicrhau bod y gyfraith yn deg, yn fodern, yn syml, yn hygyrch ac mor gost-effeithiol â phosibl. Mae ei argymhellion yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau miliynau o bobl a busnesau.
- Mae'n cael ei gydnabod yn arweinydd byd-eang ym maes diwygio'r gyfraith ac mae'n hyrwyddo rheolaeth y gyfraith yn rhyngwladol.
- Mae ei waith yn cyfrannu at enw da Cymru a Lloegr fel prif awdurdodaeth, gan ddenu buddsoddiad, cefnogi gwasanaethau cyfreithiol y DU a gwella enw da'r DU dramor.
- **Mae'r Cynllun Busnes hwn yn nodi prif amcanion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026, a fydd yn adeiladu ar lwyddiant y 60 mlynedd diwethaf.**



# Ffigurau Comisiwn y Gyfraith

Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

60fed
Pen-blwydd
1965-2025

**O fis Ebrill 2025 ymlaen, mae Comisiwn y Gyfraith yn cyflawni 17 o brosiectau ar draws 7 adran o'r llywodraeth, cyrff hyd braich a Llywodraeth Cymru.**

- Dirmyg llys
- Apeliadau troseddol
- Asedau digidol a dogfennau masnach electronig ym maes cyfraith ryngwladol breifat
- Ewyllysiau
- Sefydliadau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol
- Cymdeithasau cyfeillgar
- Tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol
- Lladdiad
- Gofal gan berthynas
- Codeiddio'r gyfraith ar amaethyddiaeth yng Nghymru
- Gofal cymdeithasol i blant anabl
- Ymreolaeth ym maes hedfanaeth
- Dulliau angladdol newydd
- Claddu ac amlosgi
- Atebolrwydd Atgyweirio Canghellau a Chofrestru
- Tenantiaethau busnes: yr hawl i adnewyddu
- Pryniant gorfodol

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Yr Adran Addysg
Trysorlys EF
Yr Awdurdod Hedfan Sifil
Llywodraeth Cymru
Yr Adran Drafnidiaeth
Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

# Ffigurau Comisiwn y Gyfraith

**Mae ein gwaith yn cyfrannu at amrywiaeth eang o ganlyniadau cymdeithasol ac economaidd yn ddomestig ac yn rhyngwladol. Gellir gweld gwerth diwygio'r gyfraith o ran budd ariannol, mynediad at gyfiawnder a llesiant unigolion.**

Rydym yn cefnogi **twf economaidd**. Yn 2020, roedd economegwyr annibynnol yn rhagweld y byddai'r enillion economaidd o bum prosiect gwerth uchaf diweddar gan Gomisiwn y Gyfraith yn fwy na £3 biliwn dros 10 mlynedd. Mae Deddf Dogfennau Masnach Electronig 2023 Comisiwn y Gyfraith yn helpu i roi hwb i fasnach ryngwladol yn y DU drwy ddarparu manteision a ragwelir o £1.1 biliwn i fusnesau'r DU dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn darparu **gwerth cymdeithasol sylweddol**. Drwy ddiwygio'r gyfraith yn dda, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nifer sylweddol o bobl ac yn gwella llesiant cyffredinol. Mae gan ein prosiectau ar briodasau ac ar droseddau casineb effaith gadarnhaol bosibl ar 4.1 miliwn o bobl ac 1.2 miliwn o bobl yn y drefn honno.

Mae ein prosiectau'n helpu i greu **tryloywder a sicrwydd cyfreithiol**. Mae hyn yn golygu bod Cymru a Lloegr yn parhau i fod yn awdurdodaeth o'r radd flaenaf sy'n denu buddsoddiad.

Rydym yn parhau i fod yn effro i niwed neu gyfleoedd newydd ac arloesol sy'n gofyn am **ystyriaeth arbenigol a chynnil**. Arweiniodd ein gwaith at Ddeddf Cerbydau Awtomataidd 2024, a allai gael effaith gadarnhaol ar 78% o aelwydydd, ac fe wnaethom lunio adroddiad blaengar ar sefydliadau ymreolaethol datganoledig (2024).

## Gosod y sylfeini ar gyfer rhaglen waith newydd

Mae gwaith Comisiwn y Gyfraith yn cynnwys rhaglenni diwygio'r gyfraith a chyfeiriadau gweinidogol ad hoc. Byddwn yn gweithio gyda'r Arglwydd Ganghellor, adrannau'r llywodraeth a Llywodraeth Cymru, i osod sylfeini pwysig ar gyfer ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf.

### Amcanion

- Cyflwyno 14eg Rhaglen ddrafft ar gyfer Diwygio'r Gyfraith i'r Arglwydd Ganghellor cyn gynted ag y bo modd yn y flwyddyn ariannol newydd hon.
- Ymgysylltu ac ymateb i flaenoriaethau uniongyrchol ar gyfer diwygio'r gyfraith drwy atgyfeiriad gweinidogol.
- Nodi gwaith newydd ar gyfer diwygio'r gyfraith yng Nghymru.

### Sut byddwn yn gwneud hyn

- Gweithio gyda'r Arglwydd Ganghellor a swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar draws y llywodraeth i gael cymeradwyaeth ar gyfer y 14eg Rhaglen ar gyfer Diwygio'r Gyfraith.
- Parhau i gynnal a meithrin cysylltiadau cryf ledled y DU, gan gynnwys yng Nghymru ac o fewn y llywodraeth.
- Bod yn hyblyg i waith blaenoriaeth uchel, gan sicrhau cydbwysedd cywir o ran gwaith ac adnoddau priodol.

Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

60fed
Pen-blwydd
1965-2025

## Datblygu ffyrdd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd presennol a chynulleidfaoedd newydd

Mae'n hanfodol ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ledled Cymru a Lloegr er mwyn diwygio'r gyfraith yn dda. Drwy ddatblygu ffyrdd o ymestyn ein cyrhaeddiad, gallwn sicrhau bod ein gwaith yn gynhwysol ac yn ystyried safbwyntiau a phrofiadau amrywiol. Drwy ymgysylltu'n llawn â'r cyhoedd, bydd hyn yn sicrhau eu bod yn rhan ystyrlon o'r broses o lunio ein hargymhellion a sut rydym yn cyfathrebu.

### Amcanion

- Gwneud y mwyaf o'n dylanwad wrth gyfathrebu ag aelodau o'r cyhoedd i helpu i gyflwyno'r achos dros ddiwygio'r gyfraith yn gyffredinol, prosiectau diwygio'r gyfraith unigol a gwerth Comisiwn y Gyfraith.
- Gwella tryloywder y gwaith rydym yn ei wneud.
- Gwella hygyrchedd allbynnau.
- Cynyddu presenoldeb a hybu ymgysylltiad yng Nghymru.

### Sut byddwn yn gwneud hyn

- Gweithredu elfennau allweddol o'r strategaeth gyfathrebu newydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ffyrdd arloesol o gyfathrebu â'r cyhoedd – er enghraifft, y defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol a phodlediadau.
- Hwyluso ymgysylltiad gan y Cadeirydd, y Comisiynwyr a'r staff yng Nghomisiwn y Gyfraith i feithrin dealltwriaeth o'r gwaith rydym yn ei wneud.
- Parhau i roi gwybod am heriau'r gyfraith bresennol drwy ddulliau fel papurau cwmpasu.
- Gweithio gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru fel cyd-gynullydd Pwyllgor Cynghori Cymru i wneud y defnydd gorau o aelodaeth y pwyllgor.
- Gwreiddio gwaith a wneir ar nodweddion gwarchodedig i wella cyrhaeddiad ein hymgyngoriadau.

## Gwella ein henw da fel asiantaeth o'r radd flaenaf ym maes diwygio'r gyfraith

Fel asiantaeth o'r radd flaenaf ym maes diwygio'r gyfraith, gall Comisiwn y Gyfraith chwarae rhan unigryw yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu rheol y gyfraith. Byddwn yn dod â'n sgiliau a'n profiad i gynulleidfa ehangach yn rhyngwladol, a fydd yn helpu i ddenu buddsoddiad, cefnogi gwasanaethau cyfreithiol y DU a gwella enw da'r DU dramor.

### Amcanion

- Cymeradwyo a gweithredu strategaeth ryngwladol newydd i gryfhau ymhellach ein statws fel yr asiantaeth o'r radd flaenaf ym maes diwygio'r gyfraith, gan bennu cyfeiriad y maes gwaith hwn am y ddwy i dair blynedd nesaf.
- Ymgymryd ag ymrwymiadau rhyngwladol penodol, gan flaenoriaethu ein hymdrechion yn unol â'r strategaeth.
- Cynnal ein perthynas â Chomisiynau cyfagos y Gyfraith, gan gynnwys drwy fynd i Gynhadledd y 5 Gwlad (sydd hefyd yn cynnwys yr Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon a Jersey).

### Sut byddwn yn gwneud hyn

- Parhau i feithrin cysylltiadau â swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein gwaith allgymorth rhyngwladol a sicrhau ei fod yn cael y dylanwad mwyaf posibl.
- Cefnogi Cymdeithas Asiantaethau Diwygio'r Gyfraith y Gymanwlad, gan ddod ag asiantaethau diwygio cyfraith y Gymanwlad at ei gilydd i drafod materion cyffredin a hyrwyddo rheolaeth y gyfraith.
- Cynnal ymweliadau tramor proffil uwch ag awdurdodaethau â blaenoriaeth sy'n cynnwys y Cadeirydd, ac ymateb i gyfleoedd eraill i ymgysylltu neu ddarparu hyfforddiant ar gyfer diwygio'r gyfraith, a hynny drwy ymweliadau allanol a thrwy groesawu ymwelwyr o dramor.

Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

60fed
Pen-blwydd
1965-2025

## Gwella ein ffyrdd ni o weithio

Mae Comisiwn y Gyfraith yn sefydliad bach. Mae tua 70 aelod o staff, ac mae gan 90% ohonynt rolau cyfreithiol sy'n diwygio'r gyfraith. Tua £6 miliwn yw'r cost gweithredu.

### Amcanion

- Parhau â'n gwaith o ddatblygu ein model gweithredu targed ar gyfer Comisiwn y Gyfraith i sicrhau bod gennym y gallu a'r capasiti i ddiwygio'r gyfraith o'r radd flaenaf.
- Rhoi cynnig ar wahanol fodelau adnoddau ar gyfer prosiectau, yn ôl maint, graddfa a chymhlethdod, gan ddod o hyd i gyllid priodol a ffyrdd o gyflwyno arbenigedd yn ôl yr angen.
- Sicrhau'r cynhyrchiant a'r effeithlonrwydd gorau posibl er mwyn sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr.
- Sicrhau ein bod yn recriwtio ac yn cadw'r bobl orau, a'n bod yn amlwg yn gwerthfawrogi'r gwaith maen nhw'n ei gyflawni.

### Sut byddwn yn gwneud hyn

- Ymgorffori'r model codi tâl newydd ar brosiectau a gyflawnir ar gyfer adrannau eraill y llywodraeth, a'i adolygu'n barhaus.
- Penodi Comisiynwyr newydd a defnyddio rolau 'Uwch Gwnsler' er mwyn rheoli gwaith a chefnogi Comisiynwyr a staff.
- Lansio a gwreiddio gwerthoedd ein sefydliad.
- Parhau i fireinio sut rydym yn ymddwyn fel sefydliad wrth ryngweithio â'r cyhoedd, a sut rydym yn rhyngweithio â'n gilydd, er mwyn helpu i roi pwrpas i ni a blaenoriaethu gwaith.